



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 43
EBRILL 2012

Testun llawenydd oedd clywed bod Derfel Reynolds, aelod yn Horeb Penrhyn-coch, wedi cael ei ddewis i gludo'r Fflam Olympaidd pan ddaw hi i ardal Aberystwyth ym mis Mai eleni. Bydd y fflam yn cael ei chludo drwy'r Deyrnas Gyfunol dros gyfnod o 70 niwrnod gan ddechrau yng Nghernyw ar Ddydd Gwener, 25ain o Fai ac yn cyrraedd Aberystwyth ar Sul y Pentecost ar y 27ain o Fai. **Llongyfarchiadau gwresocaf i ti Derfel a phob dymuniad da wrth baratoi ar gyfer yr achlysur!**

Mae gwreiddiau'r fflam yn mynd yn ôl i'r Hen Chwaraeon Olympaidd yng ngwlad Groeg ac mae'n symbol o heddwch, undod a chyfeillgarwch. Cynhelir defod fanwl ar gyfer cynnau'r Fflam ym mhob un o'r Seremonïau Agoriadol a chaiff y fflam ei chynnau o belydrau'r haul yn Nheml Hera, yn Olympia, Gwlad Groeg. Yn dilyn taith gyfnewid fer o gwmpas y wlad honno, trosglwyddir y fflam i'r Ddinas Gynnal newydd mewn seremoni arall yn Stadiwm Panathenaiko yn Athen. Yna fe'i cludir i'r Wlad Gynnal ble caiff ei throsglwyddo o un cludwr i'r llall gan ledaenu neges heddwch, undod a chyfeillgarwch. Eleni daw i ddiwedd ei thaith wrth i'r olaf o Gludwyr y Fflam gynnau'r crochan yn y Seremoni Agoriadol yn y Stadiwm Olympaidd yn Llundain gan nodi bod y Chwaraeon wedi cychwyn yn swyddogol.

Yng nghyd-destun y ffydd Gristnogol cysylltir fflamau o dân yn bennaf â dyfodiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost: *Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt (Actau 2:2)*. Dyma'r fflam a roddodd nerth ac arweiniad dwyfol i'r disgyblion i fwrw ati gyda'r gwaith o ledaenu'r ffydd Gristnogol ac o gyhoeddi fod Iesu eto'n fyw *er gwaetha'r maen a'r gwylwyr*. Yn union fel y rhai sydd yn cludo'r Fflam Olympaidd yn y daith gyfnewid mae Cristnogion ar hyd yr amser wedi throsglwyddo Fflam y Ffydd o un genhedlaeth i'r llall. Ac fel disgyblion i'r Arglwydd Iesu Grist yn 2012 mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i barhau gyda'r gwaith hwn er gwaetha'r holl anawsterau a berthyn i'r oes anghrediniol hon. Ie, ymrown o'r newydd i gludo Fflam y Ffydd a'i throsglwyddo i'n plant a'n pobl ifainc er mwyn iddynt hwythau hefyd wybod am y Duw a ddaeth atom mewn cariad, i fyw gyda ni, i farw trosom ac i atgyfodi ar y trydydd dydd.

*Os gofyn rhywun beth yw Duw
atebwn ni mai cariad yw
fe fflamiodd cariad Tri yn Un
yn rhyfedd at annheilwng ddyn*

Azariah Shadrach

Boed i gariad Duw fflamio o'r newydd yn ein calonnau wrth i ninnau ddathlu Atgyfodiad Crist y Pasg hwn.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS EBRILL 2012

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Mair Evans	
1 Ebrill 2.30yp	Oedfa Gymun Sul y Blodau Gweinidog 'Hosanna! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd.' (Marc 11:9)	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwen
5 Ebrill 7.00yh	Oedfa Gymun Ddwieithog Nos Iau Cablyd , Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon am 7yh. Pregethir gan y Parchedig Mones Farah, Great Baddow, Chelmsford 'I ble yr wyt ti am inni fynd i baratoi i ti, i fwyta gwledd y Pasg?' (Marc 14:12)	
6 Ebrill 10.00	Oedfa Gwener y Groglith yn Eglwys y Santes Fair am 10.00yb. Wedi'r oedfa fe fyddwn yn gorymdeithio drwy'r dref. 'A rhwygwyd llen y deml yn ddwy o'r pen i'r gwaelod'. (Marc 15:38)	
8 Ebrill 10.30yb	Oedfa Deuluol Sul y Pasg Gweinidog 'Y mae wedi ei gyfodi; nid yw yma.' (Marc 16:6)	
15 Ebrill 2.30yp	Oedfa Bregeth Gweinidog	Gofal y Te: I'w drefnu
22 Ebrill 10.30yb	Oedfa Bregeth Gweinidog	
29 Ebrill 10.30yb	Oedfa Bregeth Parchedig Peter Thomas	
6 Mai 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun Mairwen

I'CH DYDDIADUR

26 Mawrth- 6 Ebrill: Arddangosfa *Delweddau Maddeuant* yng Nghanolfan y Morlan. Fe fydd ar agor o 10.00yb-4.00yp, ddydd Llun i Ddydd Gwener (heblaw am ddydd Mawrth).

2 Ebrill: Cinio Cymorth Cristnogol o dan ofal Eglwys y Santes Gwenffrewi yng Nghanolfan Methodistiaidd San Paul o 12.00-1.30yp.

4 Ebrill : Rihysal y Gymanfa, Capel y Garn am 7yh

11 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch, Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

18 Ebrill: Cymdeithas Bethel: Gwen Jones: Brodwaith a Thapestri am 2yp.

18 Ebrill: Rihysal y Gymanfa, Seion, Aberystwyth am 7yh

24 Ebrill: Cwrdd Gweddi Misol, Festri Horeb am 7.30yh.

25 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch, Neuadd yr Eglwys am 12.00yp: Horeb yn gyfrifol am weini.

25 Ebrill: Rihysal y Gymanfa, Horeb, Penrhyn-coch am 7yh

2 Mai: Rihysal y Gymanfa, Capel y Morfa am 7yh

5 Mai: Ysgol Undydd Cymdeithas Emynau Cymru yn Festri Bethel

9 Mai: Rihysal y Gymanfa, Bethel, Tal-y-bont am 7yh

22-23 Mai: Cyfarfodydd Cymnafa Caerfyrddin a Cheredigion yn Llwynhendy

24 Mehefin : Pererindod i Bantycelyn

6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin: Gŵyl Gristnogol i bawb o bob oed. Maes y Sioe, Llanelwedd. Trefnir ar y cyd gan Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Lloffion

Rhaglen Cymnafa Ganu 2012 - mae copiau ar gael gan Ceris am £1.30